Rhifyn 6 Medi 2008

Busnes
Newyddion Busnes Môn

BUSNES YM MÔN
BUSINESS ON ANGLESEY

Neges gan gadeirydd Busnes Môn

Rydym yn edrych yn fyr ar broject Tŷ Mawr yn y rhifyn hwn, gan ei bod yn debygol y bydd Swyddogion Cynllunio Ynys Môn yn edrych ar y project yn fuan.

Wrth reswm, agwedd hamdden y datblygiad £100m hwn sydd wedi cael mwyafrif y sylw. Roedd Busnes Môn angen cael rhagor o wybodaeth am y datblygiad o safbwynt safle i swyddfeydd. A fydd hyn o ddiddordeb i'n haelodau? Darllenwch ymlaen.

Rwyf eisoes wedi clywed y gair "Nadolig" yn cael ei grybwyll tua theirgwaith yn ystod yr wythnos hon. Rwy'n hoffi'r Nadolig, peidiwch â'm camddeall. Ond nid ym mis Medi, yn enwedig ar ôl Yr Haf Na Chawsom Eleni.

Felly rwyf wedi gofyn yn garedig i'r golygydd osgoi defnyddio'r gair yn y newyddlen hon, o leiaf tan fis Hydref. (Dim problem, Madam Cadeirydd, ond rydych eisoes wedi crybwyll y gair ddwywaith – Gol)

Wendy Ashurst

C W Accountancy

Cadeirydd Busnes Môn: Wendy Ashurst

Tŷ Mawr – cartref mawr i fusnes?

Argraff arlunydd o ran o'r project Tŷ Mawr arfaethedig

Mae LLAWER o fusnesau sy'n tyfu yn breuddwydio am fod yn berchen ar eu hadeiladau eu hunain. I ran, gallai project Tŷ Mawr wireddu'r freuddwyd honno.

Bydd tenantiaid busnes yn gallu prynu eu rhan eu hunain o safle swyddfeydd y datblygiad arfaethedig hwn ar unrhyw adeg.

Dywedodd y datblygwyr, Ynys Mon Estates, mai diben y cynnig anarferol hwn yw annog busnesau llwyddiannus i aros ar yr ynys, yn hytrach na chael eu gorfodi i brynu adeiladau mewn ardaloedd eraill pan fydd yr opsiwn i brynu yn bosib iddynt.

Yn y rhifyn hwn:

Tŷ Mawr	Tud. 1
Partneriaethau busnes	Tud. 2
Dyddiadau cau pwysig	Tud. 3
Digwyddiadau	Tud. 4

Meddai Carl Lewis, y rheolwr gyfarwyddwr: "Bydd yn cynnig iddynt y manteision o fod yn eu cynefin. Bydd pob busnes fydd yn ymuno â ni yn Nhŷ Mawr â'i ddrws ffrynt ei hun."

Bydd Tŷ Mawr yn cynnwys 100,000 troedfedd sgwâr o safle â gwasanaeth ar gyfer swyddfeydd, wedi ei rannu yn ôl yr angen. Cafwyd addewid y bydd yn cwrdd â'r safonau uchaf o ran dylunio a'r amgylchedd, yn cynnig cysylltiadau band eang cyflym a chyfleusterau crèche.

Yn ôl y datblygwyr, bydd Tŷ Mawr, fydd wedi ei leoli rhwng Llanfairpwll a Phorthaethwy, yn creu 1,300 o swyddi tymor hir, ac yn cefnogi 500 swydd arall pan fydd y safle busnes yn llawn.

Parhad ar dudalen 2.

Tŷ Mawr - a big home for business?

Darlun arall o'r project Tŷ Mawr ar-faethedig. Bydd pont droed sydd eisoes yn bodoli yn cael ei defnyddio i greu llwybr i gerddwyr i Lanfairpwll o Dŷ Mawr, a bydd 200 o raciau diogel a chyfleusterau cawod ar gael i feicwyr

Nid cynrychioli barn aelodau Busnes Môn am ddatblygiad Tŷ Mawr yw diben yr erthygl hon.

Parhad o dudalen 1.

Mr Lewis oedd yn gyfrifol am greu datblygiadau tebyg yn Awstria, Sbaen a Bosnia, yn ogystal â Cheshire Oaks. Mae wedi datblygu chwe sinema yn y DU.

Ond fel unrhyw ddatblygiad ar y raddfa hon, fodd bynnag, mae rhai yn eu croesawu a rhai yn eu gwrthwynebu. Mae busnesau lleol yn pryderu am effaith Tŷ Mawr ar siopau, caffis a thai bwyta cyfagos.

Mater arall yw mynediad i'r safle. Mae Ynys Môn Estates yn datrys hynny efo swyddogion priffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn y cyfamser, mae'n bosib y gallai Cyngor Sir Ynys Môn ystyried y cais cynllunio ym mis Tachwedd. Os cymeradwyir Tŷ Mawr bryd hynny, mae'n bosib y byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau yn ystod Gwanwyn 2009.

Tŷ Mawr mewn ffigyrau

Yn cynnwys 55 acer, ac yn costio £100m

100,000 troedfedd sgwâr o safle busnes

98,000 troedfedd sgwâr o safle hamdden, yn cynnwys sinema, ali fowlio, canolfan ffitrwydd a thai bwyta

175,000 troedfedd sgwâr o siopau cynllunwyr dillad yn y parc manwerthu

Parc natur, mannau picnic pwrpasol a man perfformio awyr agored

200 o raciau diogel i gadw beiciau, a chyfleusterau cawod i feicwyr

Posibilrwydd o hyd at 1,800 o swyddi

Canllaw "pre-nuptial" ar gyfer partneriaethau mewn

Yn ôl ffigyrau O2 a Chymdeithas y Gyfraith, nid oes gan berchnogion a phartneriaid mwyafrif busnesau bach y DU ddarpariaeth gyfreithiol i'w diogelu mewn achosion o chwalu partneriaethau.

Daeth i'r amlwg, yn dilyn ymchwil ymysg cwsmeriaid busnesau bach O2 ac arolwg o aelodau Cymdeithas y Gyfraith, fod un rhan o dair o'u cwsmeriaid BBaCh (Busnesau Bychain a Chanolig) heb gytundeb partneriaeth cyfredol.

Yn aml, ystyrir bod ewyllys da ar ddechrau'r bartneriaeth yn ddigonol, ac roedd dros ddwy ran o dair o'r BBaChau a gafodd eu holi yn nodi bod eu partneriaeth yn seiliedig ar ysgwyd llaw ac ymddiried yn hytrach nag unrhyw fath o gontract ysgrifenedig.

Roedd yn ymddangos mai BBaChau sydd â'r partneriaid yn aelodau teuluol yw'r rhai sy'n lleiaf tebygol o fod wedi llofnodi cytundeb partneriaeth cyfreithiol.

I ymateb i hyn, mae O2 a Chymdeithas y Gyfraith wedi ymuno i ddarparu mynediad at gyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim, yn cynnwys creu fframwaith SME-nup.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.o2blueroom.co.uk/business/sme

Yn ôl ymchwil, mae dwy ran o dair o gytundebau partneriaeth busnesau bach yn seiliedig ar ysgwyd llaw

Proffil aelodau

Jean a Keith Twist, Lakehouse Holidays

Ym mha flwyddyn y gwnaethoch chi ddechrau eich busnes, a pham?
Daethom yn gyfrifol am Lakehouse Holidays ym mis Mawrth 1997. Roeddem angen her newydd.
Darlithydd yng Ngholeg Wigan oedd Keith, ym maes gosod briciau. Roeddwn i'n Gydgysylltydd Rheoli Life Long Learning Service yn Lerpwl.

Disgrifiwch eich busnes

Mae'r tai wedi'u lleoli mewn 8 acer o amgylchedd gwledig, sy'n cynnwys dau lyn pysgod bras; mae pobl leol a thwristiaid yn pysgota yn y rhain. Rydym hefyd yn darparu llety hunanarlwyo (dau fwthyn moethus, carafán sefydlog ac ysgubor). Rydym yn cyflogi tri aelod o staff rhan amser.

Pwy yw eich cleient delfrydol?
Gwyliau yw'r rhain ar gyfer rhai sy'n hoffi ymlacio mewn man tawel, a chael deffro bob bore i olygfeydd godidog dros y llynnoedd.
Rydym bob amser yn rhoi croeso cynnes i ymwelwyr ac yn gwneud ein gorau glas i wneud eu gwyliau'n fythgofiadwy.

Beth fyddwch yn ei wneud pan na fyddwch yn gweithio?

Mae Keith yn cysgu ac yn darllen, a finnau'n nofio, darllen a gwneud teisennau!

Beth yw eich cyngor busnes gorau?
Keith: "Dilynwch eich greddf bob amser."
Jean: "Peidiwch â phendroni, ewch ati i'w wneud."

Sut fyddech chi'n perswadio rhywun i ymuno â Busnes Môn?

Mae Busnes Môn yn fforwm rhwydweithio da, sydd wedi bod yn ddefnyddiol dros ben i ni.

Jean a Keith Twist

Pe byddai modd i chi newid un peth am Fôn, beth fyddai hynny?

Mae Ynys Môn angen gwerthu ei hun yn well o ran ei chyfuniad o harddwch naturiol ac atyniadau pwrpasol. Mae twristiaeth yn bwysig iawn i economi'r ynys ac mae angen ei gynnal.

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol?

Rydym ar fin agor bwthyn moethus newydd, sydd â thwb poeth, yn edrych dros y llyn. Ar ôl i ni gael gwyliau ein hunain, byddwn yn dechrau'r gwaith o adnewyddu ein tŷ ni.

Yn olaf, ychydig amdanoch chi…

Rydym yn wreiddiol o St Helens ac yn briod ers 40 mlynedd. Mae gennym 2 fab. 32 oed yw Craig, sy'n ddarlithydd mewn Seicoleg Chwaraeon yn y Brifysgol yng Nghaer. Mae Gareth yn 31 oed ac yn gerddor a chyfansoddwr sy'n byw yn Llundain.

Cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Ydy, mae'n adeg honno o'r flwyddyn unwaith eto!

Bydd Y Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol yn cynyddu ar Hydref 1af 2008 i:

Y gyfradd i oedolion cyflogedig 22 oed a throsodd - - £5.73 yr awr

Y gyfradd datblygu i weithwyr 18-21 oed - £4.77 yr awr

D.S.: Gall y gyfradd datblygu gynnwys gweithwyr 22 oed a throsodd sy'n derbyn hyfforddiant achrededig yn ystod eu 6 mis cyntaf mewn swydd newydd gyda chyflogwr newydd.

Y gyfradd ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed - £3.53 yr awr

D.S.: Eithrir prentisiaid 16 ac 17 oed o'r gyfradd gweithwyr ifanc.

Llinell Gymorth Y Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol: 0845 6000 678 neu ewch i www.direct.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd ffurflenni treth yn nesáu'n gyflym

Cewch hyd ddiwedd y mis i ddychwelyd ffurflen dreth bapur

30 MEDI yw'r dyddiad cau ar gyfer dychwelyd ffurflenni treth papur. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw un sy'n dymuno i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC) gyfrifo'u bil treth neu roi gwybod iddynt faint i'w dalu erbyn 31 Ionawr, sef y dyddiad cau ar gyfer talu biliau treth.

Os byddwch yn methu'r dyddiad cau, ond yn anfon eich ffurflen erbyn 30 Rhagfyr, bydd HMRC yn dal i gyfrifo'ch bil treth ac yn ceisio trefnu i chi ei dalu drwy PAYE, ond ni fydd yn gallu sicrhau rhoi gwybod i chi faint y bydd angen i chi ei dalu erbyn 31 Ionawr.

Ond, gallwch lenwi eich ffurflen dreth arlein hyd at 31 Ionawr – a bydd y meddalwedd yn cyfrifo'r bil treth i chi.

Yn ôl HMRC, gwnaeth tua 2 filiwn o bobl hyn y llynedd, ac mae'n annog y 7 miliwn arall sy'n llenwi ffurflenni hunanasesu papur i ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein.

Ewch i www.hmrc.gov.uk/sa i gael rhagor o wybodaeth.

Y digwyddiadau nesaf

Digwyddiadau Busnes Môn

Medi – noson rhwydweithio
Nos Iau, 25 Medi 2008
Gwesty'r Oaklodge, Moelfre LL72 8HB.
I ddechrau am 6pm, rhwydweithio a bwffe.
£11.50 fydd y gost, i'w dalu pan fyddwch yn cyrraedd.
A wnewch chi gadarnhau y byddwch yn bresennol drwy e-bostio: events@businessonanglesey.co.uk

Hydref - Digwyddiad Mawr Dewch â Busnes
Nos Fawrth 21 Hydref 2008
6pm yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy .
Dewch draw i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhwydweithio i ehangu Busnes Môn

Tachwedd - Highland Airways - Busnes Môn a RhBG (Rhwydwaith Busnes Gwynedd) ar y cyd
Cyfarfod dros Ginio
Dydd Mercher 26 Tachwedd 2008
12 o'r gloch yng Ngwesty'r Trearddur Bay, Bae Trearddur (£12.00)
Gyda Colin Munro, Highland Airways

Rhagfyr - Cinio Nadolig ar y cyd - Busnes Môn a RhBG
Yn ystod y drydedd wythnos yn Rhagfyr (i'w gadarnhau)

Digwyddiadau eraill

Gweithdai a sesiynau blasu Dechrau Busnes
O 16 Hydref ymlaen, yn ymwneud â phynciau fel cynllunio ariannol, strategaeth marchnata, a chostio a phrisio.
I gael rhagor o fanylion, ewch i www.business-support-wales.gov.uk a chlicio ar 'Digwyddiadau'

Oes gennych chi unrhyw newyddion? Cysylltwch â ni!

Yn newyddion da neu newyddion drwg, hoffwn glywed gennych!

Efallai bod gennych farn gref am faterion lleol neu genedlaethol. Efallai eich bod wedi darllen rhywbeth yn y papurau newydd lleol neu yn y rhai cenedlaethol. Neu efallai bod gennych newyddion am eich busnes eich hun. Wedi ennill contract newydd? Yn cyflogi mwy o staff? Yn lansio cynnyrch neu wasanaeth newydd! Hoffwn gael gwybod!

Anfonwch e-bost byr at:

phil.thomas@wordcreative.co.uk,

i amlinellu'ch newyddion a'ch syniadau, ynghyd â'ch rhif ffôn.

Ynglŷn â Busnes Môn

Busnes Môn yw prif rwydwaith annibynnol yr ynys ar gyfer busnesau lleol. Hwn yw'r corff sy'n cynrychioli busnesau annibynnol o bob maint a sector ym Môn. Grŵp rhwydweithio llwyddiannus sy'n uno busnesau drwy Ogledd Cymru.

Yn darparu gwybodaeth i fusnesau am ddigwyddiadau a chyrsiau ar Ynys Môn a Gogledd Cymru.

Grŵp busnes sy'n dylanwadu ar economi Môn.

Os hoffech fod yn aelod, e-bostiwch Chris Kerry: sales@re-northwales.co.uk

BUSNES YM MÔN
BUSINESS ON ANGLESEY

Cynhyrchwyd y Newyddlen gan Wordcreative

www.wordcreative.co.uk

Mae pob gofal wedi ei gymryd wrth lunio'r cyhoeddiad hwn, ac ni fydd Busnes Môn yn gyfrifol am gamgymeriadau neu esgeulustod. Nid yw'r deunydd sy'n ymddangos yn yr erthyglau o anghenraid yn cynrychioli barn Busnes Môn. Nid yw Busnes Môn yn gwarantu nac yn ardystio cynnyrch neu wasanaethau y cyfeirir atynt yn y cyhoeddiad ac ni fydd Busnes Môn yn atebol am gynnyrch neu wasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn y cyhoeddiad.

Mae Busnes Môn yn cael cyllid rhannol, neu wedi cael cyllid rhannol yn y gorffennol, gan y cyrff canlynol:

Mae Busnes ym Môn ar hyn o bryd, neu yn y gorffennol, wedi cael arian rhannol gan y sefydliadau canlynol.